



To:
Third Sector Partnership Council
Wales Race Forum members
Faith Communities Forum members
Disability Equality Forum members
Strengthening and Advancing Equality and Human Rights Steering Group members
LGBTQ+ Expert Panel members
Period Dignity Roundtable members
Community Cohesion Officers

1 Tachwedd 2021

Annwyl Cyfeillion

Rwy'n parhau'n i fod yn ddiolchgar iawn i ch i gyd am eich cefnogaeth barhaus drwy ein cyd-ymdrechion yn ystod y pandemig. Gyda'n gilydd rydym wedi nodi materion sy'n effeithio ar ein cymunedau ledled Cymru a, gyda'n gilydd, rydym hefyd wedi nodi a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain a lliniaru'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n codi trwy gydol y pandemig. Mae gennym dipyn o ffordd i fynd cyn ein bod yn glir o Covid 19 a gwn y gall Llywodraeth Cymru barhau i ddibynnu ar eich cymorth a'ch cefnogaeth barhaus yn ystod y misoedd nesaf

Rydym i gyd yn ymwybodol nad yw'r coronafeirws wedi diflannu. Yn anffodus, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn dod yn fwyfwy difrifol unwaith yn rhagor. Mae nifer yr achosion o COVID-19 ledled Cymru a gweddill y DU yn cynyddu, a hynny'n gyflym mewn rhai ardaloedd. Mae'r achosion a gadarnhawyd yma yng Nghymru yn fwy na 700 o achosion fesul 100,000 o bobl – y gyfradd uchaf a gofnodwyd gennym erioed.

Er bod y cysylltiad rhwng achosion o'r coronafeirws a derbyniadau i'r ysbyty wedi'i wanhau yn sgil y rhaglen frechu, mae'r cysylltiad hwnnw yn parhau a bydd cyfraddau uchel parhaus yn y gymuned yn arwain at bwysau cynyddol ac anghynaliadwy ar ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae nifer y gwelyau llawn yn ein hysbytai ac mewn unedau gofal dwys o ganlyniad i COVID-19 yn cynyddu ym mhob un o'n byrddau iechyd. Ar 18 Hydref, roedd dros 700 o gleifion cysylltiedig â COVID-19 yn defnyddio gwelyau ysbyty, gan gynnwys 53 o gleifion mewn gwelyau gofal critigol. Yn gefndir i hyn i gyd, ceir pwysau yn sgil achosion

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

brys ac argyfwng nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 sy'n debyg i'r hyn y byddai'r GIG fel arfer yn ei brofi pan fydd y gaeaf ar ei anterth.

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn dal i fod ar Lefel Rhybudd Sero. Golyga hyn fod pob sefydliad yn gallu agor ar yr amod bod mesurau lliniaru ganddynt ar waith i leihau lledaeniad y feirws. Mae'n gwbl hanfodol bod sefydliadau a'r pobl sy'n eu defnyddio yn deall natur a phwysigrwydd y mesurau sylfaenol hyn fel ffordd o sicrhau y byddant yn gallu aros ar agor dros yr hydref a'r gaeaf. Mae'r mesurau yn glir a dylent fod wedi'u hen sefydlu erbyn hyn. Ymhlith y mesurau hyn, y mae'r rhai a ganlyn:

- Rhaid i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill barhau i gynnal asesiad risg sy'n benodol ar gyfer y coronafeirws a chymryd mesurau rhesymol i leihau'r perygl y gallai pobl ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu.
- Rhaid i oedolion a phlant 11 oed a throsodd barhau i wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, ac eithrio lleoliadau lletygarwch fel bwytai, tafarndai, caffis neu glybiau nos.
- Dylai pobl weithio gartref lle bynnag y bo modd i helpu i leihau nifer y cysylltiadau rhwng pobl. Mae hyn yn hynod o bwysig pan fydd cyfraddau achosion yn y gymuned yn uchel oherwydd gall cysylltiadau yn y gweithle chwarae rhan sylweddol i sbarduno trosglwyddiadau o'r feirws. Mae'n bwysig gofyn i bob cyflogwr ymgymryd â'r ymddygiad amddiffynnol allweddol hwn.

Mae Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru yn hynod bryderus am yr adroddiadau niferus a glywn nad yw'r mesurau syml hyn yn cael eu cymryd mewn nifer cynyddol o leoedd. Er mwyn cadw pobl yn ddiogel, rydym unwaith eto yn gorfod edrych ar ymyriadau anoddach i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws yng Nghymru. Ymyriadau ni fyddem yn dymuno gweithredu os yn bosibl. Er bod llawer o fusnesau yn parhau gyda mesurau lliniaru pwysig, gan fynd ati, o'u gwirfodd, i ofyn i bobl gyflwyno'r Pàs COVID neu dystiolaeth o brawf negatif, a sicrhau bod gorchuddion wyneb yn cael eu gwisgo, mae'n amlwg bod llawer o rai eraill wedi dychwelyd i ffyrdd mwy 'busnes fel arfer' o weithredu sydd yn cynyddu'r risg o contractio Covid 19 i bawb..

Ein nod yw osgoi gorfod cau sectorau, canolfannau cymunedol, neu ailgyflwyno cyfyngiadau fel cadw pellter cymdeithasol neu gyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n gallu cyfarfod – ond ni allwn ddiystyru mesurau mwy sylweddol ar y cam hwn. Rydym nawr yn y sefyllfa o orfod ystyried amrywiaeth o gamau y gallai fod yn rhaid i ni eu gyflwyno os nad yw'r tueddiadau presennol mewn niferoedd yn lleihau.


Rydym yn cydnabod rhaid cael ymdrech unedig gan bob rhan o gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys unigolion, partneriaid yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, busnesau a sefydliadau sy'n gweithredu led led Cymru i helpu i dorri'r cyfraddau a lleihau'r pwysau ar ein GIG er mwyn osgoi gweithredu cyfyngiadau pellach.

Felly, rydw i'n ceisio'ch help a'ch cefnogaeth i ofyn eich bod chi'n sicrhau bod eich sefydliadau a'u haelodau, yn ogystal â'r cymunedau yr ydych yn gweithio gyda, yn parhau i gael eu gwneud yn ymwybodol o'r mesurau sylfaenol pwysig cyfredol hyn, ac arsylwi arnyn nhw. Rydym eisiau osgoi adfer cyfyngiadau cyfreithiol ar unigolion, cymunedau neu sefydliadau sy'n anghyson â lefel rhybuddio sero os yn bosibl. Dim ond os glynir yn gaeth at fesurau sylfaenol sydd ar waith ar lefel Zero y gallwn osgoi hyn. Nid yw'r mesurau hyn yn feichus ac meant yn amddiffyn pob un ohonom rhag y firws. Gwerthfawrogir yn fawr unrhyw help y gallwch ei ddarparu i godi ymwybyddiaeth a sicrhau y glynir wrth y mesurau hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar frechu fel ein hamddiffyniad mwyaf effeithiol – y nod o hyd yw cyrraedd cymaint o bobl â phosibl gyda'r dosau cyntaf, yr ail ddosau a'r dosau atgyfnerthu. Er mwyn cefnogi'r ymdrechion hyn a sicrhau bod busnesau a lleoliadau yn gallu aros ar agor, mae'n amlwg yn hanfodol bod ein cymunedau, gweithwyr, gwirfyddolwyr a'ch aelodau yn cael eu cefnogi a'u hannog hefyd i gael y pigladau hyn.

Rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o effeithiau Covid-19 a'r camau y gellir eu cymryd i'w lliniaru. Rwy'n gwybod y gallwn ymddiried ynoch chi i barhau i chwarae yn eich rolau arwain pwysig wrth helpu i gadw Cymru yn ddiogel, ar agor ac i'w diogelu.

Yr eiddoch,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice